



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

CRYNODEB O YMRWYMIADAU CYNLLUN YR IAITH GYMRAEG

Rhagair.

Dylai pob un sy'n dod i gysylltiad â'n gwasanaethau ni gael ei drin gydag urddas a pharch, gan dderbyn gwasanaethau diogel ac ymatebol o ansawdd trwy gyfrwng ei ddewis iaith.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i wella lefel y gwasanaethau sydd ar gael yn ddwyieithog, a rhoddir crynodeb isod o'r ffyrdd yr ydym yn anelu at wella'r gwasanaethau a ddarparwn ni yn yr iaith Gymraeg.

EsiAMPLAU o'r ffyrdd yr ydym yn ceisio gwella'r gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg:

- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (ABM) yn ymdrechu i sicrhau fod y staff wrth y prif fynedfeydd a mewn clinigau i gleifion allanol yn darparu gwasanaeth dwyieithog sylfaenol erbyn mis Rhagfyr 2011.
- Mae ABM yn gweithio at ddarganfod ffyrdd o sefydlu beth yw dewis iaith ei gleifion a defnyddwyr eraill ei wasanaethau, ac yn datblygu systemau ar gyfer targedu aelodau staff sy'n medru Cymraeg ar siaradwyr Cymraeg.
- Mae ABM eisoes yn croesawu gohebiaeth gan y cyhoedd yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg, gan gynnwys llythyrau, negesau ffacs a thestun ac e-byst.

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn estyn ei raglen i sicrhau bod pob neges e-bost a phob neges 'allan o'r swyddfa' yn ddwyieithog, ac mae'r staff yn cael eu hannog hefyd i gyfarch galwyr yn ddwyieithog wrth ateb y ffôn.
- Cyn bo hir fe fydd aelodau o'r cyhoedd yn gallu cyrchu gwybodaeth trwy Wefan y Bwrdd Iechyd yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg , gan y bydd y Wefan yn cael ei chynnal mewn fformat dwyieithog o fis Rhagfyr 2010 ymlaen.
- Annogir aelodau staff sy'n rhugl yn y Gymraeg i wisgo bathodyn yn dangos eu bod yn gallu delio ag ymholiadau yn Gymraeg.
- Mae hunaniaeth gorfforaethol y Bwrdd Iechyd yn llwyr ddwyieithog.
- Fe fydd yr holl arwyddion a gynhyrchir gan y Bwrdd Iechyd neu ar ei ran, yn rhai parhaol a rhai dros dro, yn ddwyieithog gan barchu egwyddor cydraddoldeb. Lle bo'r arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, fe fyddant yn gyfartal o ran maint, siâp, fformat, ansawdd ac amlygrwydd.
- Fe sicrhâ ABM fod yr holl ffurflenni, holiaduron a deunydd esboniadol a gynhyrchir ganddo ar gyfer sylw'r cyhoedd yng Nghymru yn llwyr ddwyieithog, a felly hefyd yr holl arddangosfeydd, arddangosiadau a stondinau hysbysrwydd cyhoeddus a drefnir ganddo yng Nghymru.

Hysbysebhir swyddi gwag trwy wefan ddwyieithog genedlaethol NHS Jobs ar www.jobs.nhs.uk. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i sicrhau, lle'r ystyrir gallu ieithyddol yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer unrhyw swydd, y bydd hyn yn cael ei ragnodi wrth inni recriwtio ar gyfer y swydd honno.

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried gallu ieithyddol yn un o'r lluo o sgiliau perthnasol wrth benodi staff ac mae'n annog ac yn cefnogi'r aelodau staff hynny sy'n dymuno cyfathrebu â'i gilydd yn Gymraeg. Mae hyn yn hybu argaeledd gwasanaeth

dwyieithog ac yn cryfhau cyfathrebiad dwyieithog â chleifion ac ymwelwyr.

- Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i adnabod a chefnogi aelodau staff sy'n dymuno dysgu'r iaith neu loywi eu Cymraeg. Fe dderbynia pob aelod staff newydd hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o'r iaith trwy'r rhaglenni sefydlu staff. Cynhelir sesiynau ymwybyddiaeth o'r iaith hefyd ar gyfer y staff presennol.

Mecanweithiau ar gyfer Monitro Gwelliannau yn y Gwasanaeth Cymraeg.

Gweithgor yr Iaith Gymraeg fydd y mecanwaith ffurfiol ar gyfer monitro cynnydd at weithredu mesurau yng nghyswllt Cynllun yr Iaith Gymraeg, ond cyflawnir y gorchwyl hwn rhwng cyfarfodydd y gweithgor hwnnw gan Swyddog yr Iaith Gymraeg.

Fe gyflwyno'r Bwrdd Iechyd adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'w hysbysu am gynnydd tuag at weithredu'r Cynllun. Mae copiau o Gynllun llawn yr Iaith Gymraeg ar gael ar wefannau Mewnrwyd a Rhyngrwyd y Bwrdd Iechyd .

Cwynion, Canmoliaethau ac Awgrymiadau.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ac mae'n croesawu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau a fydd yn ei helpu i gyflawni hyn. Fe fydd y cyhoedd yn gallu cyfleu canmoliaethau, pryderon neu awgrymiadau i Swyddog yr Iaith Gymraeg neu'r Pennaeth Gweinyddiaeth Gorfforaethol, a fydd yn ateb ar lafar neu mewn ysgrifen (trwy lythyr neu e-bost) yn unol â dymuniadau'r person sy'n cysylltu â'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn croesawu cyfleoedd i adolygu sut mae'n darparu gwasanaethau fel y gall ymdrechu i wneud gwelliannau angenrheidiol lle bo'n ymarferol. Fe ddelia â chwynion ynghylch gweithrediad ei Gynllun Iaith yn brydlon ac yn unol â gweithdrefnau corfforaethol y sefydliad.

Gellir cysylltu â Swyddog yr Iaith Gymraeg neu â'r
Pennaeth Gweinyddiaeth Gorfforaethol ym Mwrdd
Iechyd Lleol PABM, Prif Swyddfeydd y Bwrdd Iechyd, 1
Porthfa Talbot, Port Talbot SA12 7BR

Ffôn: 01639 683670

Ffacs: 01639 687675

E-bost: inquiries@wales.nhs.uk

